Swansea University Prifysgol Abertawe | Student Life Bywyd Myfyrwyr

Chwilio: StudentLifeSU

# Newyddion GO!

## Darganfod - Cyfoethogi - Cysylltu |

## Annwyl Ddarllenwr,

Croeso i Rifyn Ionawr 2026! Bydd rhai ohonoch chi sydd wedi bod yma ers peth amser ac wedi ymgartrefu ym mywyd Prifysgol Abertawe ac yn mynd i'r afael â'r ffordd o fyw yng Nghymru, tra bod eraill sydd newydd gyrraedd!
Dylai'r cylchlythyr hwn eich helpu i gael mwy o wybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnig, ein cynllun gwirfoddoli sydd ar gael a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig.
Nod y digwyddiadau hyn yw rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, dod i adnabod yr ardal leol ac, yn bwysicaf oll, fwynhau misoedd cyntaf eich profiad yn y Brifysgol, neu barhau â'ch bywyd yma!
Rydym hefyd yn cynnal ein gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.
Os hoffech chi awgrymu digwyddiad, e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk - rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch syniadau!

Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Kayleigh, Beth



## Visa Advice Team

Yma i helpu

Mae Tîm CynghoriFISA yma i helpuachefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau nad ydynt yn academaidd. Yn benodol, gallwn ni helpu gyda fisas a mewnfudo, cwestiynau teuluoedd rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y DU. Rydym ni hefyd yn cynnig cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin cymunedau drwy ein Rhaglen GO!.

Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion am sut gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gweminarau achlysurol neu weithgareddau ar-lein eraill: https://www.swansea.ac.uk/visa-advice/

Mae gennym ni gyfrif Instagram hefyd, lle gallwch chi ein tagio ni a phan fyddwch chi'n mynd i ddigwyddiadau, cadwch lygad am eich lluniau!

Beth sy'ndigwydd?

- 7 Ionawr! DigwyddiadcymdeithasolGO!:Ymlacioac Adfywio
- 14 Ionawr! Digwyddiad cymdeithasol GO!: Ymlacio ac Adfywio
- 22 Ionawr - Digwyddiad GO! Digwyddiad cymdeithasol GO!: Y Pentref Manwerthu ar y Bws
- 24 Ionawr! Taith GO!: Y Pentref Manwerthu ar y Bws
- 26 Ionawr! Digwyddiad cymdeithasol GO!: Brecwast Croeso
- 28 Ionawr! Taith Gerdded GO!: Crwydro o Gwmpas Abertawe
- 31 Ionawr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Croeso Rhyngwladol
- 2 Chwefror - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Brecwast Croeso
- 4 Chwefror - Taith Gerdded GO!: Crwydro o Gwmpas Abertawe
- 9 Chwefror - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Gwledd Gemau Bwrdd
- 11 Chwefror - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Croeso Rhyngwladol
- 16 Chwefror - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Gwledd Gemau Bwrdd
- 17 Chwefror - Bwyta GO!: The New Slow Boat
- 22 Chwefror - Taith GO!: Birmingham
- 28 Chwefror - Taith GO!: Caerdydd ar y Trên

https://university-swansea.native.fm/group/5010/student-life-go

## Digwyddiad Cipolwg yn ôl ar Raglen GO!

### Caffi Iaith



EGall ein digwyddiadau GO! amrywio, o grefftau tawelu, bingo, cwis tafarn i nosweithiau ffilm! Gwnaethom lansio ein Caffi Iaith wythnosol newydd sbon ym mis Hydref. Bob dydd Mercher amser cinio yn y Lolfa Groeso, Campws Parc Singleton, rydym yn cynnal Arweinwyr Iaith, lle mae myfyrwyr yn cael cyfle i ddysgu iaith newydd neu ymarfer eu sgiliau presennol!

"Fe wnes i fwynhau'r effaith gymdeithasol a chwrdd â phobl newydd o wahanol leoedd"

"Roedd yn gyfle gwych i ddysgu rhywbeth newydd ac fe wnes i fwynhau"

# Newyddion GO!

Rhifyn Croeso
Ionawr 2026|2

## Cyflwyno Tîm GO!

**Ym mhob rhifyn, byddwn ni'n cwrdd ag aelod arall o dîm GO!**



Eich enw: Hannah Albridge
Eich cwrs: Y Gyfraith gyda Blwyddyn Dramor
Cenedligrwydd: Saesnes
Pam dewisoch chi astudio ym Mhrifysgol Abertawe?
Rwy'n dod o bentref bach ar lan y môr yn Lloegr felly roeddwn i eisiau bod yn agos at y môr eto ac roedd Abertawe yn berffaith ar gyfer hynny. Fe wnaeth rhaglenni astudio dramor Abertawe fy argyhoeddi hefyd!
Pam penderfynoch chi wirfoddoli fel aelod o dîm GO!?
Ar ôl dychwelyd o flwyddyn dramor yn yr Almaen lle gwirfoddolais gyda sefydliad tebyg i helpu myfyrwyr rhyngwladol i integreiddio i'r wlad, roeddwn i eisiau parhau â'm 'profiad rhyngwladol' yn ôl yma yn Abertawe.
Yn eich barn chi, beth yw eich prif ddyletswydd fel aelod o dîm GO!?
Helpu myfyrwyr rhyngwladol i deimlo'n gartrefol yn Abertawe a rhoi help llaw wrth feithrin eu cysylltiadau yng Nghymru.
Beth sy'n gwneud aelod da o dîm GO!?
Bod ag egni anturus a chroesawgar.
Beth yw'r peth gorau am fod yn aelod o dîm GO! hyd yn hyn?
Cwrdd â rhai myfyrwyr yn ystod digwyddiad croeso Abertawe yr oeddwn wedi helpu i'w perswadio i astudio yn Abertawe pan roeddwn i'n byw yn yr Almaen. Yna eu gwylio nhw'n ffynnu dros y semester - mae gweld hynny wedi bod yn anhygoel.
Pam rydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill gyflwyno cais i ymuno â thîm GO!?

Os ydych chi wedi gwneud rhaglen astudio dramor o'r blaen ac yn gweld eisiau'r profiad, gall bod yn wirfoddolwr barhau â'ch profiad rhyngwladol a hefyd mae'n cynnig cyfle i chi 'roi yn ôl' fel y gwnaeth eraill yn eich gwledydd lletyol ar eich cyfer chi. Os ydych chi'n bwriadu mynd ar brofiad astudio dramor yn fuan, gallwch chi gael awgrymiadau a syniadau gan fyfyrwyr presennol a mynd â nhw gyda chi.

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gwrdd â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chymryd rhan yn y gymuned.
Os hoffech wirfoddoli fel aelod o dîm GO!, ac am ragor o wybodaeth, cofrestrwch am gyfrif Discovery a chofrestrwch i fod yn Wirfoddolwr tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151 neu e-bostiwch gosocial@abertawe.ac.uk.



## GO!Bwyta | Cost £10 (fel arfer)

Ers iddynt ddechrau ychydig flynyddoedd yn ôl, mae nosweithiau GO!Bwyta wedi dod yn fwyfwy poblogaidd - mae myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r DU wedi ymweld â bwyty gwahanol yn Abertawe bob mis i fwynhau bwyd o bob cwr o'r byd a chwrdd â ffrindiau newydd hefyd! Bydd y bwyty fel arfer yn darparu bwydlen osod am £10 ac mae bob amser digon o fwyd! Caiff nosweithiau GO!Bwyta eu hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac mae tocynnau ar werth yn: https://university-swansea.native.fm/group/5010/student-life- go

**Syniad Coginio: Cawl Cymreig Traddodiadol**



Gallwch chi roi cynnig ar goginio cawl Cymreig. Gallwch chi wneud fersiwn cig neu feganaidd!
Cynhwysion
500g o gig oen wedi'i dorri'n ddarnau 5cm (DEWISOL)
NEU
anghofiwch am y cig a defnyddiwch 1 litr o stoc llysiau
500g o erfinen
2 foronen
300g o datws
2 gennin
Bara ffres a menyn
Caws Caerffili i'w weini (OPSIYNOL)
Dull

- Torrwch eich llysiau, go drwchus.
- Mae'r ffordd draddodiadol o goginio cawl yn cynnwys berwi'r dŵr gyda'r cig oen mewn sosban fawr, yna ychwanegu'r llysiau. Mae hyn yn creu stoc cigog, ond os nad ydych chi'n hoff o gig yna hepgorwch y cam hwn a dechreuwch ag 1 litr o stoc llysiau yn lle hynny.
- Ffiwch y cennin mewn menyn Cymreig hallt cyn ychwanegu'r stoc a'r llysiau wedi'u torri. Dewch â'ch cawl i ferwi a'i fudferwi am 15-20 munud, nes bod y llysiau yn dyner.

Mae cawl yn blasu orau ar ôl iddo gael ei oeri dros nos i adael i'r blasau ddatblygu'n dda. Yna bydd angen ei ailgynhesu, torri sleisys trwchus o fara a menyn, ychwanegu ychydig ddarnau o gaws a mwynhau!

**hapus** The Student Life Toolkit
Pecyn Cymorth Bywyd Myfyrwyr

**Mae Hapus yn gwrs ar-lein sy'n eich paratoi ar gyfer heriau meddyliol, emosiynol ac ymarferol yn y brifysgol. Mae'n rhoi i chi'r wybodaeth a'r adnoddau i ymdopi â phethau fel gorbryder, rheoli eich arian a hwyliau isel. Gallwch gael mynediad at y cwrs drwy eich cyfrif Canvas.**
**Mae ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Arabeg a Tsieinëeg.**